

Canllawiau Athrawon ar gyfer yr adnoddau *Dysgu*

Bwriad y gweithgareddau *Dysgu* hyn yw rhoi cyfle i'r disgyblion ddeall rhagor am ddiffyg sicrwydd dŵr, beth sy'n ei achosi a'r symptomau. Gall y disgyblion wyllo fideos a sioeau sleidiau, llenwi taflen waith sgiliau meddwl, yn ogystal ag ychwanegu achosion a symptomau i'w coeden diffyg sicrwydd dŵr. Bydd modd i'r disgyblion ychwanegu datrysiadau i'w coeden diffyg sicrwydd dŵr wrth iddynt gwblhau'r gweithgareddau *Meddwl*.

Ystod oedran: 7 i 14 oed

Amser: 60-80 munud

- Clipiau ffilm *Dysgu*: 30-40 munud (*Saesneg yn unig*)
- Coeden diffyg sicrwydd dŵr rhan 1: 30-40 munud

Amcanion Dysgu

- Deall rhai o brif achosion diffyg sicrwydd dŵr
- Enwi rhai o symptomau diffyg sicrwydd dŵr
- Gwneud cysylltiadau rhwng symptomau ac achosion
- Dysgu rhagor am faterion diffyg sicrwydd dŵr drwy ddarllen astudiaethau achos sawl gwlad.

Cwestiynau allweddol

- Beth yw ystyr diffyg sicrwydd dŵr?
- Beth yw rhai o symptomau diffyg sicrwydd dŵr?
- Beth yw rhai o'r achosion?
- Beth yw'r cysylltiad rhwng y symptomau a'r achosion?

Adnoddau (sylwch fod y taflenni sydd ar gael i'w llungopïo i'w canfod ar ddiwedd y ddogfen pdf hon)

- Sioeau sleid *Dysgu* 1 a 2*
- Clipiau ffilm *Dysgu* x 5 (*Saesneg yn unig*):
 - *Infrastructure and water vulnerability: Niger* - Isadeiledd a diffyg sicrwydd dŵr: Niger
 - *Drought and water vulnerability: Uganda* - Sychder a diffyg sicrwydd dŵr: Uganda
 - *Flooding and water vulnerability: Pakistan* - Llifogydd a diffyg sicrwydd dŵr: Pakistan
 - *Infrastructure and water vulnerability: Tajikistan* - Isadeiledd a diffyg sicrwydd dŵr: Tajikistan
 - *Conflict and water vulnerability: Sudan/Chad* - Gwrthdaro a diffyg sicrwydd dŵr: Sudan/Chad
- *Taflen waith clipiau ffilm Dysgu* – un i bob disgybl
- *Taflen waith o enghreifftiau achosion a symptomau* (i ddisgyblion dethol)
- *Templed coeden diffyg sicrwydd dŵr* wedi'i gwneud yn fwy i faint A3 – un i bob pâr o ddisgyblion
- Dogfen *Learn country information for teachers'* (*Saesneg yn unig*)



*Sylwch: bydd gwybodaeth newydd yn ymddangos ar rai o'r sleidiau ar ôl i chi glicio. Mae'r cylch glas sydd ar waelod ochr chwith y sgrin yn dangos fod y sleid wedi gorffen llwytho.

Gweithgaredd 1: Clipiau ffilm *Dysgu* (30-40 munud)

Dangos y sioe sleidiau *Dysgu 1* i'r disgyblion

Bwriad y sioe sleidiau hon yw rhoi cyflwyniad i ddiffyg sicrwydd dŵr i'r disgyblion. Neilltuwch ddigon o amser ar gyfer trafodaeth ac i'r disgyblion ofyn cwestiynau.

Clipiau ffilm *Dysgu* a thaflen waith

Sylwch : efallai yr hoffech gyfeirio at y daflen '*Learn country information*' ar gyfer y gweithgaredd hwn.

1. Rhowch gopïau o'r *daflen waith clipiau ffilm Dysgu* i bob disgybl a gofyn iddyn nhw edrych ar y clipiau ffilm. Mae'r clipiau hyn yn trafod y pedwar mater sy'n achosi diffyg sicrwydd dŵr: isadeiledd dŵr (dau glip), sychder, llifogydd a gwrthdaro.
2. Wrth i'r disgyblion weld gwahanol symptomau diffyg sicrwydd dŵr ar y *clipiau ffilm Dysgu*, gofynnwch iddyn nhw nodi'r hyn sy'n eu hachosi a rhoi tic yn y blwch sy'n eu cysylltu â'i gilydd.
3. Gall y disgyblion rhoi tic wrth fwy nag un achos. Er enghraifft, gall prinder dŵr yfed fod yn gysylltiedig â dadleoli yn sgil gwrthdaro fel yn achos Sudan/Chad, neu ddiffyg isadeiledd dŵr fel yn Nhajikistan.
4. Gellir defnyddio'r daflen hon *yn ystod* y darnau ffilm, gan oedi ar bwyntiau perthnasol, neu (yn well fyth), *ar ôl* i'r disgyblion wyllo'r darnau ffilm.
5. Trafodwch ddewisiadau'r disgyblion. Efallai yr hoffech gyfeirio at y rhestr termau neu'r ffotostorïau sydd ar y dudalen adnoddau ychwanegol.

Gweithgaredd 2: Coeden diffyg sicrwydd dŵr rhan 1 (30-40 munud)

Dangos y sioe sleidlau *Dysgu 2* i'r disgyblion

Bwriad y sioe sleidiau yma yw cynorthwyo'r disgyblion i ganfod achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr. Neilltuwch amser ar gyfer trafodaeth ac i'r disgyblion ofyn cwestiynau. Sylwch: efallai yr hoffech gyfeirio at '*Learn country information*' ar gyfer y gweithgaredd hwn.

1. Rhowch gopïau A3 o'r *goeden diffyg sicrwydd dŵr* i bob pâr. Dywedwch mai thema'r wers heddiw yw diffyg sicrwydd dŵr, a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu hynny ar foncyff y goeden.
2. Esboniwch fod brigau'r goeden yn cynrychioli symptomau diffyg sicrwydd dŵr - er enghraifft, gorfod teithio ymhell er mwyn casglu dŵr. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi brigau'r goeden drwy feddwl am gymaint o symptomau â phosib.
3. Esboniwch fod gwraidd y goeden yn cynrychioli achosion diffyg sicrwydd dŵr. Gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r gwraidd, er enghraifft drwy ysgrifennu 'Sychder' neu 'Newid yn yr Hinsawdd'.
4. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am ragor o achosion a symptomau diffyg sicrwydd dŵr, cyn gofyn iddyn nhw gerdded o amgylch y dosbarth a rhannu syniadau gyda'i gilydd. Defnyddiwch sylwadau'r disgyblion fel sylfaen i'r drafodaeth o ran y cysylltiad rhwng yr achosion a'r symptomau. Efallai yr hoffech gyfeirio at yr wybodaeth am y wlad neu'r ffotostorïau sydd ar y dudalen adnoddau ychwanegol.
5. Mae croeso i chi esbonio i'r disgyblion y bydd modd iddyn nhw ddarganfod datrysiadau i'r

broblem o ddiffyg sicrwydd dŵr a'u hychwanegu i'w coed diffyg sicrwydd dŵr yn ystod y gweithgareddau *Meddwl*.

Gwahaniaethu

Symleiddio: rhowch y daflen '*Enghreifftiau o Achosion a Symptomau*' i'r disgyblion er mwyn eu cynorthwyo nhw i lenwi'r goden diffyg sicrwydd dŵr. (gweler isod).

Mwy heriol: chwaraewch y gêm *Crychdonnau* sydd yn yr adnoddau ychwanegol.


Ar gyfer disgyblion sy'n gorffen yn gyflym: cwblhewch y gweithgareddau dealltwriaeth sydd yn yr adnoddau ychwanegol.

Camau nesaf

Dechreuwch y sioe sleidiau *Meddwl* ac ewch ati i wneud y gweithgareddau, neu mae croeso i chi defnyddio rhai o'r adnoddau ychwanegol.

Taflen waith clipiau ffilm <i>Dysgu</i>		Achosion prinder dŵr										Ar bwy mae'r effaith fwyaf?				
<p>Wrth i chi wyllo, rhowch ✓ yn y blwch sydd yn cysylltu'r symptomau a'r achosion, A nodwch pwy sydd yn cael eu heffeithio</p>		Dadleoli oherwydd gwrthdaro	Tlodi	Diffyg diogelwch	Prinder glaw	Dim pibau / ffynhonnau (isadeiledd)	Y Llywodraeth heb arian	Llifogydd	Newid hinsawdd	Dŵr heb ei drin	Prinder glanweithdra (toiledau a charthffosydd)	Unrhyw beth arall? (nodwch isod)	Merched	Dynion	Plant	
Symptomau diffyg sicrwydd dŵr	Dim digon o ddŵr i'w yfed															
	Cerdded am bellter hir i ddod o hyd i ddŵr															
	Clefydau sy'n cael eu cario mewn dŵr															
	Methu golchi'n iawn (perygl o afiechyd)															
	Dim dŵr i goginio															
	Dim digon o ddŵr ar gyfer cnydau															
	Teimlo na allwch wneud unrhyw beth															
	Methu mynd i'r ysgol															

Templed coeden diffyg sicrwydd dŵr



Enghreiffiau o achosion a symptomau

Achosion

1. **Trychinebau naturiol** (*pobl sy'n colli eu cartrefi a'u cyflenwad dŵr oherwydd trychinebau naturiol megis daeargrynfeydd a tswnamiâu - pobl dlawd gan amlaf sy'n dioddef yr erchyllterau hyn gyntaf*)
2. **Gwrthdaro** (*gall isadeiledd dŵr gael ei ddinistrio yn ystod gwrthdaro a/neu efallai bod angen i bobl ffoi o'u cartrefi ar frys er mwyn darganfod man mwy diogel i fyw*)
3. **Newid yn yr Hinsawdd** (*sychder a/neu lifogydd yn debygol*)
4. **Tlodi** (*efallai nad oes gan y llywodraeth ddigon o arian i adeiladu neu gynnal isadeiledd dŵr*)
5. **Anghydraddoldeb rhyw** (*mewn llawer o wledydd, merched a genethod sydd fel arfer yn gorfod nôl dŵr*)

Symptomau

1. Efallai mai dim ond mewn gwerysloedd dadleoli y caiff pobl fynediad at ddŵr glân. Oherwydd y galw amdano, mae'n bosib y bydd angen iddyn nhw giwio i gael dŵr.
2. Efallai y bydd pobl yn cael eu gorfodi i ffoi i wersylloedd dadleoli er mwyn teimlo'n ddiogel, gan orfod ciwio am ddŵr.
3. Gall cartrefi a chyflenwadau dŵr gael eu difetha. Gallai'r cynaeafau fethu sy'n arwain at brinder bwyd, yn enwedig i'r ffermwyr tlawd.
4. Rhaid i bobl gerdded yn bell i nôl dŵr, sydd nid yn unig yn fudr ar brydiau, ond sy'n cymryd amser maith. Efallai nad oes gan lawer o bobl yr adnoddau priodol i gael cyflenwad digonol o ddŵr er mwyn tyfu'r bwyd sydd eu hangen arnyn nhw.
5. Mae rhai genethod yn treulio cymaint o amser yn nôl dŵr fel nad oes amser ganddyn nhw i fynd i'r ysgol.

Rhestr Termau ar gyfer y clipiau ffilm *Dysgu*

Mae'r rhestr termau yn cynnwys rhestr o eiriau a diffiniadau a ddefnyddiwyd yn ystod ffilmio'r clipiau *Dysgu*. Mae'r diffiniadau'n berthnasol i'r cyd-destun lle defnyddir y geiriau.

Water vulnerability - *Diffyg sicrwydd dŵr*: bod mewn risg neu berygl o ganlyniad i rywbeth yn ymwneud â dŵr

Clip Dysgu Isadeiledd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Niger

- **Water infrastructure** - *isadeiledd dŵr*: pibau a ffynhonnau sy'n cael eu hadeiladu gan y llywodraeth i ddarparu dŵr
- **Untreated water** - *dŵr heb ei drin*: dŵr heb ei lanhau
- **Waterborne disease** - *afiechyd a gludir gan ddŵr*: afiechyd sy'n cael ei drosglwyddo o un i'r llall gan ddŵr (er enghraifft *dolur rhydd* neu *golera*)

Clip Dysgu Sychder a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Uganda

- **Drought** - *sychder*: prinder glaw difrifol dros gyfnod hir o amser
- **Untreated water** - *dŵr heb ei drin*: dŵr heb ei lanhau
- **Unpredictable** - *anwadal*: annisgwyl, digwydd yn ddirybudd
- **Crops** - *cnydau*: planhigion sy'n cael eu tyfu ar gyfer bwyd
- **Cash crop** - *cnydau masnachol*: cnydau sy'n cael eu tyfu i'w gwerthu am arian
- **Yield** - *cynnyrch*: swm sy'n cael ei gynhyrchu
- **Famine** - *newyn*: prinder difrifol o fwyd, yn arwain at lwggu

Clip Dysgu Llifogydd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Pacistan

- **Flood** - *llifogydd*: swm mawr, peryglus o ddŵr sy'n lledaenu dros dir sych
- **Displaced people** - *pobl wedi'u dadleoli*: pobl sydd wedi'u gorfodi i adael eu cartrefi
- **Sanitation** - *glanweithdra*: cael gwared â dŵr budr a gwastraff toiledau
- **Contaminated water** - *dŵr llygredig*: dŵr brwnt/budr
- **Climate change** - *newid yn yr hinsawdd*: newidiadau yn nymheredd a thywydd y Ddaear dros gyfnod hir o amser

Clip Dysgu Isadeiledd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Tajikistan

- **Water infrastructure** - *isadeiledd dŵr*: pibau a ffynhonnau sy'n cael eu hadeiladu gan y llywodraeth i ddarparu dŵr
- **Untreated water** - *dŵr heb ei drin*: dŵr heb ei lanhau
- **Reservoir** - *cronfa*: llyn artiffisial i storio dŵr
- **Waterborne disease** - *afiechyd a gludir gan ddŵr*: afiechyd sy'n cael ei drosglwyddo o un i'r llall gan ddŵr (er enghraifft, *dolur rhydd* neu *golera*)
- **Chlorination** - *clorineiddio*: ychwanegu clorin (cemegyn) i lanhau dŵr
- **Sediment** - *gwaddod*: deunydd solid sy'n setlo ar waelod dŵr

Clip Dysgu Gwrthdaro a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Sudan/Chad

- **Conflict** - *gwrthdaro*: anghytundeb rhwng pobl, a all arwain at ymladd a rhyfel
- **Displaced people** - *pobl wedi'u dadleoli*: pobl sydd wedi'u gorfodi i adael eu cartrefi
- **Water vulnerability** - *diffyg sicrwydd dŵr*: perygl o beidio cael digon o ddŵr
- **Ration** - *dogn*: swm penodol o ddŵr, er mwyn osgoi defnyddio'r cyfan ar unwaith
- **Security** - *diogelwch*: amddiffyn rhag perygl
- **Humanitarian** - *dyngarol*: achub bywydau